Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Fawrth, 8 Mai 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan, Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Heather Williams ac Ifan Wyn.

90. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd John Wynne Hughes.

91. DATGAN BUDDIANNAU

Mynegodd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis fudd personol yn eitem agenda rhif 6, Ceisiadau Cynllunio – 02/2018/0303 – 97 Stryd Mwrog, Rhuthun – Adeiladu estyniad i annedd, a mynegodd y Cynghorydd Heather Williams fudd personol fel cymydog yr ymgynghorwyd gyda nhw o ran cais cynllunio 02/2018/0098 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun **–** gosod 10 colofn goleuadau Fictoraidd 3 metr o uchder.

92. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018 yn gywir.

93. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

94. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2018/0186 – Y Llain Fowlio, Y Ganolfan, Stryd Mwrog, Rhuthun - Adeiladu tŷ clwb – Caniatawyd.

95. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *bod gwrthwynebiad i'r cais cynllunio a ganlyn,* ***gan ei fod yn cynrychioli gorddatblygu'r safle, a fyddai'n arwain at ddiffyg gardd a lle parcio i'r annedd, ac mae'r fynedfa oddi ar ffordd dosbarth B brysur a fyddai'n creu trafferthion traffig. Hefyd, byddai tynnu'r wal gerrig ymaith yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.***

02/2018/0343 – Tir yn (rhan o ardd) Y Fron, Stryd Mwrog, Rhuthun

Adeiladu annedd ar wahân a llunio mynediad newydd i gerbydau i wasanaethu'r annedd sy'n bodoli eisoes.

PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0098 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun

Gosod 10 colofn oleuadau math 'Fictoraidd' 3 metr o uchder – ***yn ddarostyngedig i gynnal arolwg coed trylwyr gan arbenigwr coed cymwysedig ymlaen llawn a fyddai'n ystyried effaith gosod y goleuadau arfaethedig mor agos at y coed palalwyfen.***

02/2018/0306 – 97 Stryd Mwrog, Rhuthun

Adeiladu estyniad i'r annedd.

02/2018/0289 – Bwthyn y Goron, 13 Stryd y Ffynnon, Rhuthun

Newid defnydd o salon harddwch i annedd.

02/2018/0074 – 38 Stryd y Ffynnon, Rhuthun

Arddangos arwydd ffasgia wedi'i oleuo'n fewnol ac arwydd ymwthiol.

96. CYFLE HYFFORDDIANT

Ystyriodd yr Aelodau wahoddiad i fynd i Sesiwn Hyfforddiant Cynllunio gan Swyddogion Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yng Nghaledfryn, Dinbych, nos Iau, 24 Mai, 6pm – 8pm.

PENDERFYNWYD: *y byddai'r Cynghorwyr Robert Owen-Ellis a Heather Williams yn mynd i'r sesiwn hyfforddiant.*

97. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 11 Mehefin 2018 am 6:45pm.*